❖ Y Doethion

(ar y gôr-gân 'Troyte')

Roedd rhywrai yn dweud mai ffôl oeddem ni
Yn dod o'r pellteroedd i'th geisio Di;
Ond mentro a wnaethom dros diroedd maith,
Nadolig y Brenin oedd pen y daith.

Dywedent mai ffôl oedd syllu i'r nen
A dilyn y seren a befriai uwchben,
Ond rhaid ydoedd dilyn drwy'r siwrnai hir,
Roedd golau y Seren mor glir, mor glir.

'Mor araf,' medd rhai, 'yw'r camelod hyn,
Ni'ch cludant ymhell tu arall i'r bryn.'
Ni wyddent mai araf bob amser yw
Y daith sy'n dwyn doethion at drysor Duw.

Mae rhywrai'n synnu'n fawr inni ddod
O'n plasau moethus at lety di-nod,
Mae'n wir mai hardd yw ein plasau i ni,
Ond coron pob harddwch mwy fyddi Di.

O! cymer ein rhoddion, aur, thus a myrr,
Cans eiddot bellach bob gwawrddydd a dyr,
Yfory rhaid dweud wrth bawb yn y byd
Mai Ti yw'r Doethaf o'r doethion i gyd.

W. Rhys Nicholas